



Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 13^{eg} o Fedi 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Gordon Kilby (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Owen James, y Cyng. Geraint Price.
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Rebecca Butcher

Cof 120 / Medi / 17 Datganiadau o Fuddiant. **Dim.**

Cof 121 / Medi / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

- E/35892 Ychwanegu estyniad llawr cyntaf ar ben y siop un llawr bresennol yn 11, Heol Newydd
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl reoliadau adeiladu.
- E/35893 Darparu gardd ychwanegol a lle ar gyfer amwynderau yn ategol i, ac yn gyfagos i'r prif annedd yn 21, Heol Latimer.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.
- E/36036 Newid y defnydd a wneir o'r llawr cyntaf a'r ail llawr, o ddefnydd domestig i swyddfa, a'r llawr gwaelod o siop i swyddfa, ail-ddylunio'r wynebfwrdd uwchlaw wal flaen y siop, altradau mewnol a dymchwel yr estyniad cefn a'i ail-adeiladu yn 2, Stryd y Brenin.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl reoliadau adeiladu.
- E/36037 Cais adeilad rhestredig ar gyfer yr uchod yn 2, Stryd y Brenin.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl reoliadau adeiladu.

Cof 122 / Medi / 17 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/35711	Tŷ Newton	Rhodddwyd
E/35534	Tir gyferbyn i 15, Stryd y Bont	Rhodddwyd
E/35493	6, Stryd y Farchnad	Rhodddwyd
E/35549	25, Heol Cilgant	Rhodddwyd
E/35294	60-60A Stryd Rhosmaen	Rhodddwyd
E/35144	Siop y Co-operative	Rhodddwyd
E/35145	Neuadd Ddinesig	Gwrthodwyd
E/34997	Waterloo Villas	Rhodddwyd

E/34739	Waterloo Villas (amrywiad)	Rhodddwyd
E/34682	17, Heol Clarence	Rhodddwyd
E/35395	1, Stryd Rhosmaen	Rhodddwyd

Cof 123 / Medi / 17 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

1. Ymgynghoriad CSG mewn perthynas â chynnig i wahardd cerbydau, ar unrhyw adeg, ar Stryd y Farchnad.

Yn gyffredinol, roedd y pwyllgor o blaid y gwaharddiad, ar yr amod bod pob un o drigolion y fflatiau a'r siopwyr yn cael gwybod. Mynegwyd rhai pryderon am fynediad, yn ogystal â'r angen i gyfyngu dodrefn stryd.

Cof 124 / Medi / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad â Mr Ros Beynon, mewn perthynas â'r coed sydd wedi gordyfu ar ei lain ef ar y Cilgant. Dywedodd y Swyddog Technegol ei fod wedi gofyn i CSG am bris i symud y canghennau ymhellach ar hyd y Cilgant, lle na fyddai golygfeydd o'r dyffryn yn cael eu rhwystro.

Cof 125 / Medi / 17 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Y Cyng. Edward Thomas, copi o lythyr a anfonwyd i Ken Skates LICC mewn perthynas â'r angen am fwy o arwyddion cyflymder ar hyd yr A483. Nodwyd.
2. Byddai'r ffordd yn cael ei chau dros dro yn Adeiladau'r Banc ar yr 16^{eg} o Hydref. Nodwyd.
3. Byddai'r ffordd yn cael ei chau dros dro yn Stryd y Farchnad, rhwng y 5^{ed} a'r 7^{fed} o Ragfyr. Nodwyd.

Cof 126 / Medi / 17 Grantiau ar gyfer Diffibrilwyr Cyhoeddus

Adroddodd y Clerc am wybodaeth yr oedd wedi dod o hyd iddo am asiantaethau sy'n cefnogi ceisiadau am grantiau ar gyfer Diffibrilwyr Cyhoeddus. Roedd wedi caffael caniatâd, ar bapur, gan berchenogion tri adeilad a oedd yn barod i gael diffibrilwyr wedi'u gosod y tu allan i'w hadeiladau. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod argymhelliad yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Cyllid i gefnogi cais am y grantiau yma, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Geraint Price. Roedd pawb o blaid.

Cof 127 / Medi / 17 Gohebiaeth

1. Linda Rees Jones, Pennaeth y Gyfraith CSG, a oedd i fod darganfod a allai'r Cyngor gymhwyso unrhyw awdurdod llwyr yn erbyn perchenogion tir sydd â choed wedi gordyfu ac angen eu tocio. Nodwyd.
2. Daniel John CSG, mewn perthynas â mesurau dros dro ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Llangadog. Nodwyd.
3. Steve Halsall, mewn perthynas â gwahoddiad i gyflwyniad gan y Comisiwn Ffiniau yn Neuadd y Sir ar yr 20^{fed} o Fedi. Nodwyd.

Cof 128 / Medi / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.58yh.